Ffair Fwyd Nadolig
Sadwrn 24 Tachwedd 2018

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Annwyl Gyfeillion

Mae'n bleser gennyf amgau ffurflen gais ar gyfer y Ffair Fwyd Nadolig a gynhelir eto eleni yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. I'r rhai ohonoch sy'n dod yn rheolaidd, gobeithiwn y medrwch ymuno â ni eto, neu os mai dyma'r tro cyntaf i ni gysylltu â chi, gobeithiwn y byddwch yn mwynhau ymuno yn ein dathliadau bwyd a chyfarfod â phawb yma yn Aberystwyth. Manteision yr Ŵyl yw:

- Mae'r cyfan dan do
- Dros 30 o stondinau ar wahân
- Dros 2,000 o ymwelwyr yn ystod y dydd
- Staff cyfeillgar a chefnogol ar gael drwy'r dydd
- Parcio hwylus ar y safle
- Lle ychwanegol allanol ar gyfer unedau arddangos hunan-gynhaliol
- Cyflenwad trydan ar gael
- Cyhoeddusrwydd ac hysbysebion
- Dim ond £50 y stondin - yn macsimeiddio'ch incwm

Anelwn at gynnig cymysgedd da o gynnyrch yn cynnwys caws, cig, pysgod, gwin, cwrw, teisennau, siocled a llawer mwy. Mae'r ffocws ar gyflenwyr lleol sy'n cynhyrchu bwyd organig ac arbenigol o safon uchel. Gwnawn ein gorau i ddewis amrediad cytbwys o gynnyrch er mwyn sicrhau bod y cwsmeriaid a'r cyflenwyr yn manteisio i'r eithaf ar y ffair. Mae'r galw am stondinau yn uchel, felly awgrymir eich bod yn archebu'n gynnar er mwyn sicrhau lle.

Y cyfan sydd angen ei wneud yw cwblhau'r ffurflen gais amgaeedig a'i hanfon yn ôl atom yn yr amlen Radbost ynghyd â'ch siec am £50. Pe derbynnir gormod o geisiadau ac os nad yw'n bosibl darparu stondin i chwi, anfonir eich siec yn ôl atoch.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni - ffoniwch Andy ar 01970 622895, e-bost aberartshop@aber.ac.uk neu Med ar 01970 622884, e-bost mmr11@aber.ac.uk

Edrychwn ymlaen at gyfarfod â chi ar y dydd.

Gyda dymuniadau gorau,

Andy Pye a Meredith Rendell
Trefnwyr y Ffair Fwyd Nadolig

Dangosir print o ffair 2012

Ffair Fwyd Nadolig
Sadwrn 24 Tachwedd 2018

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

Enw'r Busnes
Fel y dylai ymddangos mewn unrhyw gyhoeddusrwydd

Enw'r person i gysylltu ag ef/hi

Cyfeiriad

Côd post

Ffôn a Symudol /

Cyfeiriad E-bost

Rhif Cofrestru'r Cerbyd

Cynnyrch i'w werthu
Dynodwch y math o gynnyrch yr ydych yn bwriadu gwerthu gyda syniad o'r pris a godir

A oes angen pwynt pŵer arnoch?
Os oes nodwch y kw sydd ei angen
Oes Nac oes
kw

Dim coginio gyda nwy

Nifer o Stondinau
gofod 8tr x 4tr / 2.4m x 1.2m
1 2 3 4

Amgaeaf Siec
£50 y stondin, yn daladwy i 'Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth'
£ .00

Dychwelir eich siec os nad yw eich cais yn llwyddiannus

Termau ac Amodau

1. Cynhelir y Ffair o 10am tan 4pm ar Ddydd Sadwrn 24 Tachwedd 2018.
2. Gosodir y stondinau yn eu lle rhwng 8am a 9.30am ar Ddydd Sadwrn 24 Tachwedd 2018. Os na osodir y stondin yn ei le yn ystod yr amser hwn tynnir y cynnig yn ôl ac ni fydd yn bosibl cael ad-daliad.
3. Rhaid i'r holl gynhyrchwyr gael eu cofrestru gyda Iechyd yr Amgylchedd a darparu copiau o dystysgrifau Hylendid Bwyd.
4. Rhaid i'r stondinau gael eu staffio gan y cynhyrchydd neu ei gynrychiolydd.
5. Rhaid i stondinwyr symud eu stoc rhwng 4pm a 6pm ar ddydd Sadwrn 24 Tachwedd 2018
6. Nid yw Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw eiddo a adewir yn yr adeilad ar ôl 6pm ar 24 Tachwedd 2018.
7. Gofynnir i'r holl stondinwyr ddarparu copi o'u hyswiriant atebolwydd cyhoeddus a chwblhau ffurflen asesiad risg (amgaeedig)
8. Mae penderfyniad trefnwyr y Ffair ynglyn â lleoliad y stondinau yn derfynol ac ni ellir ei herio.
9. Mae trefnwyr y Ffair yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais.

Wrth wneud y cais hwn, mae'r ymgeisydd yn cytuno i indemnio Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn erbyn unrhyw atebolrwydd, cost, hawliad neu iawndal sy'n codi mewn unrhyw ffordd o werthiant nwyddau ar ran yr ymgeisydd gan Brifysgol Aberystwyth a/neu Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn y Ffair Fwyd Nadolig 2018.

Llofnod

Printiwch yr enw

Dychwelwch y ffurflen hon at:

Ffair Fwyd Nadolig 2018
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Penglais Campus
Aberystwyth
SY23 3DE